# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth 9fed o Fehefin 2026** |
| **AMSER** | **Cychwyn am 7y.h** |
| **LLEOLIAD** | **Y Ganolfan, Llithfaen LL53 6NH** |
| **CADEIRYDD** | **Wiliam Jones (Gadeirydd 2026-27)** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **Croeso:**<br>Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Wiliam Jones (Cadeirydd CC Pistyll) |
| **2.** | **Presennol:**<br>Gethin Jones (GJ), Lois Fychan (LF), Osian Williams (OW), Rhian Edwards (RE) a Sianelen Pleming (SP)<br><br>**Ymddiheuriadau gan:**<br>Cynghorydd Jina Gwyrfai (JG)<br><br>**Heb datgan ymddiheuriadau o flaen llaw at y cyfarfod:**<br>Emlyn Williams (EW), Gruffydd J L Jones (GJLJ)<br><br>***Canllaw Un Lais Cymru 'Y rheol chwe mis ar gyfer presenoldeb' - os yr aelod yn methu mynychu cyfarfod o fewn cyfnod o chwe mis, mae'r aelod hwnnw/honno yn peidio bod yn aelod o'r cyngor yn syth, oni bai fod y methiant oherwydd rhyw reswm a gymeradwywyd gan y cyngor cyn diwedd y cyfnod o chwe mis'.*** |
| **3.** | **Datgan diddordeb:** Neb |
| **4.** | **Cyflwyno a mabwysiadu cofnodion o cyfarfod diwethaf –** Gethin Jones (GJ), Rhian Edwards (RE) |
| **5.** | **Materion yn codi:**<br>A) Diffib Llithfaen – angen rhywun lleol i fod yn gyfrifol amdano (byddant yn derbyn ebost ac cyfarwyddiadau sut i checio ei fod yn gweithio ac faint o batri sydd arno ayyb)<br>**Diweddariad:** Angen rhoi hysbys ar tudalen Facebook Llithfaen yn gofyn am gwirfoddolwyr<br>B) Maes Parcio y Ganolfan<br>**Diweddariad:** Gwaith dal heb dechrau – rhoi ymlaen i cyfarfod Gorffennaf.<br>C) Lon Groes<br>**Diweddariad:** Jina Gwyrfai (JG) dim yn bresennol yn y cyfarfod – rhoi ymlaen i cyfarfod Gorffennaf<br>D) HSBC – Leon o HSBC am trefnu i CCP gallu cael bancio ar lein. Clerc i cysylltu ag Cyfrifwr i gallu gwneud TAW<br>**Diweddariad:** Dim diweddariad<br>E) Gor yrru yn Pistyll<br>**Diweddariad:** OW yn bryderys am yr gor yrru yn Pistyll enwedig hefo plant ysgol yn croesi y lon i dal y bws, holi am speed bumps fel sydd yn Chwilog – rhoi ymlaen i cyfarfod Gorffennaf<br>F) Cytundeb torri gwellt Eglwys Pistyll<br>**Diweddariad**: Cytundeb 3 blynedd (2026-2029) wedi cytuno gan OW ac LM. Cytundeb i cael ei anfon allan<br>G) Sedd Gwag:<br>**Diweddariad**: Un person lleol (Llithfaen) sydd wedi gwneud cais hyd yn hyn. Post wedi rhannu ar tudalen FB Cyngor Cymuned Pistyll, wefan Cyngor Gwynedd ac Tudalen Llithfaen. Dyddiad cau 30/06/2026 |
| **6.** | **Gwefan CC Pistyll:** Bod dim wedi diweddaru ar y wefan (GJ) |
| **7.** | **Diweddariad Cyllidol gan y Is Cadeirydd (WJ)**<br>Cyfrifon Banc Cyngor Cymuned Pistyll: Cyfrif Elusennol: £ * dim wedi derbyn statement banc a Cyfrif Cadw: £2,800.00<br>Taliadau mis Mehefin<br>201393 Clerc £300.00<br>201394 Archwiliad Cymru / Audit Wales – ffi am 2022/23 £200.00<br>201395 Un Llais Cymru – cwrs Cyflwyniad i Cynghorwyr Newydd (RE) £44.00<br><br>**Diweddariad Asedau:**<br>• Ddifibrilwyr (2) – Un wedi'i leoli yn Llithfaen ac un yn Pistyll. CC Pistyll wedi ad-dalu cost y ddau fatri pad newydd.<br>• Gysodfannau Bws (2)<br>• Meinciau - Wedi'u lleoli yn Pistyll ac yn Llithfaen.<br>• Maes Parcio – Ben Nant<br>• Biniau Baw Ci (4) - 1 ym Mhistyll ac 3 yn Llithfaen. Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am y bin sydd wedi'i leoli yn Nant.<br>• Tir Comin – Hanner y mynydd.<br>• Y Ganolfan – Mae Cyngor y Gymuned yn dal y les ar yr adeilad, tra bod Pwyllgor y Ganolfan yn gyfrifol am weithredu'r ganolfan o ddydd i ddydd. |
| **8.** | **Pwyllgor y Ganolfan**<br>Mae Cyngor Cymuned yn dal y les ar yr adeilad, tra bod Pwyllgor y Ganolfan yn gyfrifol am weithredu'r ganolfan o ddydd i ddydd. |

| | |
|---|---|
| **9.** | **Unrhyw Fater Arall / Materion lleol:**<br>**Maes Parcio ben Nant**<br>**Diweddariad:** SP wedi gweld fod dau 'Portaloo' ym maes Parcio Ben Nant sydd yn berchen gan Cyngor Cymuned Pistyll, oedd ras North Wales Pilgrims Race o Nant Gwrtheyrn i Aberdaron Dydd Sadwrn 6 Mehefin (lleoliad dechrau wedi newid munud diwethaf, clerc wedi cael gwybodaeth gan un oedd yn rhedeg) ond nid oedd neb wedi gofyn am caniatad i rhoi rhain yna. Dim yn siwr fod yr trefnwyr Beautifully Brutal wedi meddwl mai Nant Gwytheryn sydd yn berchen yr maes parcio. Angen anfon e-bost i holi ac i ofyn am rhybydd i dyddiad ras 2027 er mwyn gallu rhybuddio Trigolion Llithfaen o'r digwyddiad o flaen llaw.<br><br>**Maes Parcio**<br>**Diweddariad** – disgwyl dyddiad dechrau gwaith.<br><br>**Lon Rhosydd**<br>Diweddariad: Mae ceir yn cael eu anfon ar y lon yma i Nefyn gan SatNav/Google. Nid yw yn lon addas ar gyfer gymaint o geir. RE cryn dipyn o ceir ymwelwyr yn mynd ar y fos ochr y lon. Clerc wedi anfon e-bost ymlaen i Cynghorydd Jina Gwyrfai.<br><br>**Cae Chwarae Pistyll / Bioamrywiaeth**<br>**Diweddariad:** Clerc i edrych pa grantiau sydd ar gael. Angen edrych ar polisi Bioamrywiaeth CCP oherwydd mae Un Llais Cymru angen i bob Cyngor Cymuned ei rhoi gwefan y Cyngor ac anfon yr linc iddynt i cadarnhau fod yr polisi yno. |
| **10.** | **Cyfarfod Nesaf:**<br>Bydd y cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, 7fed Orffennaf 2026, am 7yh yn y Ganolfan, Llithfaen LL53 6NH.<br>***Os ni fyd aelodau yn gallu mynychu angen gadael I'r Clerc neu aelod arall wybod i gallu rhoi ymddiheuriadau o flaen llaw.*** |